# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ32518 a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 9 Gorffennaf 2004

**At Owen John Thomas:**

Yn ystod cwestiynau llafar ar 19 Mai, cytunais i ystyried ein system grantiau ac undebau credyd. Yr oedd cyllid grant ar gael drwy'r cynllun cenedlaethol ar gyfer undebau credyd rhwng Ionawr 2001 a Rhagfyr 2003. Gwnaeth llawer o undebau credyd gais am arian drwy'r prosiect hwn ar y dechrau gan wneud y gorau o swm y grant oedd ar gael, a oedd wedi ei osod yn wreiddiol ar uchafswm o £30,000 y flwyddyn. Ailymgeisiodd sawl undeb credyd i ariannu prosiectau ychwanegol yn hwyrach yn ystod bywyd y prosiect ac, yn yr achosion hynny, penderfynodd bwrdd grant y prosiect i estyn y terfyn a osodwyd yn wreiddiol.

Dim ond y tro cyntaf yn y rhaglen grant y gwnaeth undebau credyd eraill gais am gyllid. Dim ond ym mlwyddyn tri y prosiect y gwnaeth Undeb Credyd Sblot, er enghraifft, gais am grant, gan ofyn am ychydig dros £28,000. Derbyniodd y swm hwn yn llawn.

Nid yw'r gronfa grant sy'n cael ei hariannu ar hyn o bryd gan y Cynulliad/yr Undeb Ewropeaidd, 'Retaining Wealth Through Credit Unions', wedi gosod uchafswm grant sydd ar gael bob blwyddyn. Fodd bynnag, bydd y swm a fydd ar gael i undebau credyd yn dibynnu ar gyfyngiadau cymorth gwladol.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ32518 a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 9 Gorffennaf 2004

**At Brian Gibbons:**

Fel yr addawyd yn ystod cwestiynau llafar ar 19 Mai 2004, cytunais i edrych eto ar y ddau fater a godwyd gennych ynglyn â hyrwyddo undebau credyd yng Nghymru a'r defnydd o'r term 'undeb credyd'.

**Marchnata a Chyhoeddusrwydd**

Fel y gwyddoch, bu Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu'r prosiect cenedlaethol eithriadol o lwyddiannus ar undebau credyd am dair blynedd hyd at fis Rhagfyr 2003. I gydnabod yr angen i godi proffil yr undebau credyd yng Nghymru ac annog rhagor o bobl i ymuno â'u hundeb credyd lleol, yr oedd y prosiect yn cynnwys cefnogaeth i farchnata a chyhoeddusrwydd, a oedd yn cynnwys cyllid ar gyfer:

- ystod o lenyddiaeth gyffredinol i hyrwyddo undebau credyd;
- deunyddiau arddangos i'w defnyddio gan undebau credyd lleol;
- hysbysebu ar fysiau, radio a byrddau hysbysebu;
- cefnogaeth farchnata wedi ei theilwra i undebau credyd unigol; a
- gwaith cysylltiadau cyhoeddus yn anelu at gael erthyglau am undebau credyd yn y wasg leol.

Yr oeddwn yn bersonol yn falch o gefnogi derbyniad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i nodi diwrnod rhyngwladol undebau credyd yn 2003. Rhoddwyd sylw cenedlaethol yn y wasg a'r cyfryngau i'r digwyddiad, gan BBC Cymru, Newyddion HTV, BBC Radio Wales, Newyddion a BBC Radio Cymru.

Mae gwybodaeth am undebau credyd eisoes ar gael yn gyffredinol drwy amrywiaeth o ffynonellau. Mae llinell ffôn benodol am ddim (0808 1454550) wedi bod ar gael ers yn gynnar yn 2002. Mae'r llinell ffôn, sy'n cael ei gweithredu gan ganolfan gysylltu galwadau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ym Mangor, yn rhoi gwybodaeth o fewn cyrraedd hawdd, yn cynnwys manylion undebau credyd lleol ac yn nodi manteision bod yn aelod. Mae gwybodaeth hefyd ar gael yn hawdd drwy wefan Canolfan Gydweithredol Cymru (www.walescooperative.co.uk). Yn ychwanegol at hynny, mae pob undeb credyd yng Nghymru wedi cael cynnig i ddatblygu ei gwefan ei hun.

Nid oes elfen sylweddol o farchnata yn benodol ar gyfer undebau credyd yn y prosiect newydd, 'Retaining Wealth Through Credit Union Development', a ariennir gan y Cynulliad ac Ewrop, sydd yn bennaf yn gronfa grant a chyllid. Cafodd llawer o'r gwaith hyrwyddo angenrheidiol ei wneud dan y prosiect blaenorol, gan alluogi llawer o undebau credyd gyrraedd mas critigol o aelodau. Y ffordd ymlaen yn awr yw drwy strategaethau ac ymgyrchoedd marchnata lleol, megis aelod yn cyflwyno aelod newydd, er bod peth gwaith hyrwyddo cyffredinol wedi ei gynllunio.

**Defnydd o'r term 'undeb credyd'**

Yr wyf yn cydnabod bod dadl barhaus yn mynd rhagddi ar y defnydd o'r term 'undeb credyd' ac a yw'n disgrifio'r gwasanaethau y gellir eu darparu yn ddigonol. Nid yw'r term, er hynny, wedi cael ei wrthwynebu ymysg aelodau mewn rhannau eraill o'r byd lle y mae undebau credyd yn ffynnu, megis Iwerddon, Unol Daleithiau America a Chanada. Mewn gwirionedd, mae undebau credyd yn rhan o fudiad byd-eang, ac yr wyf o'r farn bod yr hunaniaeth gyffredin hon wedi ychwanegu at gryfder undebau credyd lleol unigol.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ35240, a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol, ar 9 Mehefin 2004**

**At David Lloyd:**

Yn ychwanegol at eich ymholiad diweddar yn y Cyfarfod Llawn ynghylch pa arian sydd ar gael i ariannu prosiectau sy'n trin y sawl sydd â phroblemau camddefnyddio cyffuriau yn y gymuned, atodir dadansoddiad llawn o gyllideb cronfa gweithredu camddefnyddio sylweddau ar gyfer 2004-05 er gwybodaeth.

**Atodiad A**

| **Cronfa Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau 2004-05** | **Dyraniad (£)** |
|---|---:|
| Cronfa gweithredu camddefnyddio sylweddau—dosbarthwyd yn ôl fformwla i bartneriaethau diogelwch cymunedol | 7,151,661 |
| Gweithwyr cymorth carchar | 65,000 |
| Cynllun cymorth trawsnewidiol | 300,000 |
| Menter triniaeth Rhondda | 500,000 |
| Rhaglen ysgolion Cymru gyfan | 1,300,000 |
| INCLUDE—prosiect gwyrdroi bywydau pobl ifanc | 386,762 |
| Taliadau sector gwirfoddol Adran 64 | 325,000 |
| Mentrau cyffuriau ac alcohol eraill | 631,577 |
| **Cyfanswm** | **10,660,000** |
| Throughcare and aftercare scheme—Home Office resources | 4,950,000 |
| **Total** | **15,610,000** |

**Gwybodaeth ychwanegol at y datganiad ar Gynllun Casglu Cyngor Celfyddydau Cymru ar 19 Mai 2004, a gyhoeddwyd gan Alun Pugh, Y Gweinidog dros Ddiwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon, ar 12 Tachwedd 2004**

**At Eleanor Burnham:**

Cyfeiriaf at y rhan honno o fusnes y Cyfarfod Llawn ar 19 Mai 2004 lle drafodwyd cyhoeddi'r ail-lansiad cynllun casglu Cyngor Celfyddydau Cymru.

Ymrwymais i roi gwybod ichi am sefyllfa oriel yr Academi Frenhinol Gymreig yng Nghonwy. Gallaf bellach gadarnhau bod yr oriel ymhlith y 79 sy'n cymryd rhan yn y cynllun casglu.